Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Cynwyd Sant
Pen-yr-Ysgol
Maesteg
Pen-y-bont ar Ogwr
CF34 9YE

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Cynwyd Sant

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Cynwyd Sant |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 271 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 208 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 40 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 22.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 9.1% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 35.1% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 05/01/2019 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw’n berthnasol) | 18/10/2016 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 09/02/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

O dan arweiniad effeithiol y pennaeth, mae gan yr ysgol weledigaeth gytûn sy'n seiliedig ar ddarparu amgylchedd diogel sy'n meithrin Cymreictod a balchder yn hunaniaeth y disgyblion. Mae'r staff a llywodraethwyr yn rhannu'r weledigaeth hon ac yn cyfrannu'n effeithiol i waith cadarn yr ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol a'i chymuned yn dda gan sicrhau cyfleoedd gorau i'r disgyblion.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r defnydd naturiol o'r iaith Gymraeg gan staff a disgyblion. O oed cynnar, mae disgyblion yn dechrau siarad yn hyderus, ac erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, maent yn defnyddio iaith aeddfed a chywir. Mae'r cwricwlwm yn eang ac mae'r profiadau dysgu yn cynnig lefel bwrpasol o her a chefnogaeth. Drwy addysgu cyson, mae disgyblion yn gweithio'n ddiwyd ac mae eu syniadau nhw a'u rhieni yn sail ddefnyddiol i gynllunio'r athrawon. Yn ogystal, mae athrawon yn sicrhau dilyniant adeiladol ym medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion, yn ogystal â medrau eraill. Mae ychydig iawn o weithgareddau yn darparu cyfleoedd buddiol i ddatblygu'r disgyblion yn ddysgwyr annibynnol, ond, yn gyffredinol, nid yw'r arfer hon wedi ei gwreiddio'n llawn.

Mae perthnasoedd gwaith cadarn yr ysgol â'r rhieni a'r gymuned ehangach yn arbennig o gryf. Drwy nifer o weithgareddau rheolaidd, mae'r ysgol yn gwrando ar farn rhieni ac yn cefnogi anghenion teuluoedd yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae bron pob un ohonynt yn teimlo'n rhan o 'Deulu Cynwyd Sant'.

Mae staff yn adnabod anghenion unigol disgyblion yn llwyddiannus ac yn ymateb yn brydlon. Trwy hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gan gynnwys disgyblion yn y dosbarth anghenion cymedrol, yn gwneud cynnydd da.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Cryfhau'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae’r awyrgylch gynnes a chroesawgar yn Ysgol Cynwyd Sant yn sail i’r gymuned ddysgu hapus a chynhwysol. Mae’r pennaeth yn fodel rôl arbennig sy’n ennyn parch bron pob aelod o gymuned yr ysgol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ohoni hi ei hun, y staff a’r disgyblion. Mae’r pennaeth yn cydweithio’n ddiwyd â’r staff, y llywodraethwyr a’r gymuned ehangach i osod cyfeiriad strategol cadarn ac i ddarparu addysg, gofal a chefnogaeth gyson i’r disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu at sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu.

Mae’r arweinwyr yn angerddol bod yr arwyddair, sef ‘Cariad, Cymreictod, Cyrhaeddiad’, wrth wraidd holl waith yr ysgol ac mae pwyslais amlwg ar ddefnyddio a dathlu’r Gymraeg. Ychydig o ddisgyblion sy’n siarad Cymraeg yn gwbl naturiol wrth ddechrau yn yr ysgol ond, gyda chefnogaeth y staff sy’n fodelau iaith effeithiol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn siaradwyr hyderus a byrlymus.

### Ciplun – datblygu siaradwyr Cymraeg naturiol ac aeddfed

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu’r disgyblion yn siaradwyr Cymraeg naturiol yn gryfder. Mae arweinyddiaeth arweinwyr yr ysgol yn hyrwyddo cariad dwfn at yr iaith Gymraeg a Chymreictod, sy’n meithrin balchder cryf y disgyblion at yr iaith. Mae llafaredd yn flaenoriaeth glir ar draws yr ysgol ac mae’r cyfleoedd dyddiol i ddatblygu patrymau iaith a chystrawennau cywir yn meithrin siaradwyr Cymraeg rhugl, safonol o oed cynnar. Mae’r cynnydd yn glir a cheir dilyniant cadarn ym medrau ieithyddol y disgyblion, gyda’r rhan fwyaf yn dangos aeddfedrwydd ieithyddol a chyfoethog erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol.

Mae arweinwyr yn dosbarthu rolau a chyfrifoldebau yn synhwyrol i ddiwallu anghenion disgyblion ac ysgogi gwelliannau yn narpariaeth yr ysgol. Mae arweinwyr yn hunanwerthuso’n drylwyr, ac mae’r holl staff a’r disgyblion yn cyfrannu’n fwriadus wrth ystyried effaith darpariaeth yr ysgol. Mae arweinwyr yn defnyddio amrediad eang o dystiolaeth i adnabod blaenoriaethau gwella’r ysgol sy’n canolbwyntio’n dda ar wella darpariaeth, lles, profiadau dysgu a chynnydd ym medrau’r disgyblion. Yn ogystal, maent yn creu a chynnal diwylliant cadarnhaol i hybu datblygiad proffesiynol staff sy’n cysylltu’n agos â blaenoriaethau gwella. Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i’r ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gref o’r sefyllfa gyllidol ac yn ei chyd-reoli’n ofalus. Yn ddiweddar, maent wedi dechrau ymrwymo i weithgareddau uniongyrchol er mwyn datblygu eu gallu i herio arweinwyr ar agweddau o ddysgu ac addysgu.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi lles y disgyblion yn gryfder. Mae’r holl staff yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol â’r disgyblion. O ganlyniad, mae ymddygiad ac agweddau bron pob disgybl mewn gwersi, ac o amgylch yr ysgol, yn arbennig o dda. Yn ogystal, mae

balchder y disgyblion tuag at eu hysgol yn gwbl amlwg, gydag ymdeimlad cryf o berthyn i un teulu. Maent yn dangos parch, cwrteisi a charedigrwydd tuag at ei gilydd, oedolion ac ymwelwyr.

Mae gan staff adnabyddiaeth dda iawn o anghenion disgyblion unigol. Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i gefnogi disgyblion sy’n dod o aelwydydd incwm isel a’r sawl sydd ag ADY, gan gynnwys disgyblion yn y dosbarth anghenion cymedrol. Mae staff yn monitro ac olrhain cynnydd disgyblion o’u mannau cychwyn yn drylwyr ac yn darparu amserlen gynhwysfawr o raglenni cefnogi pwrpasol sy’n ymateb i ofynion disgyblion yn fuddiol. Mae cynorthwywyr yn gweithio’n wybodus a medrus wrth gefnogi lles a dysgu’r disgyblion ac mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o’u mannau cychwyn.

Mae disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i gyfrannu at waith yr ysgol trwy amryw bwyllgorau penodol. O ganlyniad, maent yn dylanwadu ar benderfyniadau strategol, gan gynnwys gwella agweddau o les ac agweddau o’r ddarpariaeth allanol yn llwyddiannus. Mae’r profiadau hyn yn datblygu medrau arwain y disgyblion yn arbennig, ac maent yn hyderus bod y staff yn gwrando ac yn gweithredu ar eu syniadau.

Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sydd wedi ei wreiddio yn eu hardal, eu hunaniaeth Gymreig a’r byd ehangach. Mae’n ennyn brwdfrydedd bron pob disgybl ar draws yr ysgol, gan gynnwys y dosbarth anghenion cymedrol. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion a’u rhieni ddylanwadu ar eu dysgu ac mae athrawon yn gwneud defnydd synhwyrol o’r syniadau hyn wrth gynllunio prosiectau’r tymor. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn datblygu i fod yn ddinasyddion egwyddorol ac yn falch iawn o’u hanes a’u diwylliant. Yn ogystal, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddwysáu eu hymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol yn llwyddiannus. Mae’r disgyblion yn ystyried amrywiaeth o safbwyntiau a gwerthoedd ac yn dangos goddefgarwch ac empathi at eraill sy’n wahanol iddyn nhw.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae’r athrawon yn rhannu amcanion y dysgu ac yn holi disgyblion yn bwrpasol. Yn ogystal, maent yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion adalw eu dysgu blaenorol ac ymestyn eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth. Yn gyffredinol, mae athrawon yn darparu cefnogaeth a her fuddiol mewn gweithgareddau difyr a diddorol sydd yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion. Maent yn cynnig cyfleoedd amrywiol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a chreadigol. Mae staff y dosbarth anghenion cymedrol yn paru gweithgareddau dysgu ag anghenion unigol yn fedrus, gan helpu disgyblion i ddyfnhau eu dysgu a’u dealltwriaeth. Mae cysondeb ar draws yr ysgol yn yr adborth i ddisgyblion sy’n helpu’r disgyblion i adnabod camau nesaf yn eu dysgu. Fodd bynnag, mae staff ar draws y brif ffrwd yn dueddol o or-arwain y dysgu sydd, yn ei dro, yn cyfyngu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol.

Cryfder nodedig o'r ysgol yw'r berthynas gwaith agos sydd gan y staff â theuluoedd y disgyblion. Mae'r ymrwymiad i ddatblygu'r gefnogaeth ar eu cyfer yn werthfawr iawn ac yn cefnogi lles y disgyblion a'u rhieni tu fewn a thu hwnt i aelwyd yr ysgol yn llwyddiannus.

### Ciplun – cefnogi lles disgyblion a'u teuluoedd

Mae'r arweinwyr yn gwerthfawrogi teuluoedd yr ysgol fel partneriaid allweddol gan gydnabod effaith cartref cefnogol ar les a dysgu disgyblion. Maent yn gwneud defnydd hynod effeithiol o'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd sy'n cynnig dewislen bwrpasol o weithdai wythnosol i gefnogi rhieni. Trwy sesiynau am sut i sefydlu patrymau cwsg, er enghraifft, caiff effaith gadarnhaol ar brydlondeb y disgyblion ac ar lefelau presenoldeb. Yn ogystal, mae cynllun bwriadus sy'n cefnogi aelodau agos o'r teulu nad ydynt yn y cartref am gyfnod penodol yn effeithiol iawn. O ganlyniad, mae rhieni a gofalwyr yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, heb ragfarn, ac mae'r gefnogaeth yn sicrhau bod y disgyblion yn fwy sefydlog, hapus ac yn barod i ddysgu.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/04/2026